# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

**(Microsoft Teams Meeting/ Hybrid meeting in Council Chamber)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 6 Hydref 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, A.Dacey, R.Davies, S.E.Freeguard, N.Goldup-John, C.James a/ac S.Grimshaw |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

## 3. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Rheolau a rheoliadau mynwentydd

Cafodd yr aelodau ddiweddariad ynghylch y diwygiadau i Reolau a Rheoliadau Mynwentydd yr awdurdod, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nododd yr aelodau bwysigrwydd meinciau coffa i deuluoedd gan ddweud bod lle ar gael yn rhai o'r amlosgfeydd mwy ar gyfer meinciau ychwanegol. Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd, eglurwyd bod ceisiadau am seddi coffa wedi'u gohirio; fodd bynnag, roedd yr adroddiad hwn yn gofyn am ailddechrau gosod seddi coffa, ond ar sail gymunedol. Rhoddodd y swyddog a oedd yn bresennol

enghraifft sef bod 30 o geisiadau am feinciau ym Mynwent Margam ar hyn o bryd, ac y byddai 30 o feinciau unigol yn defnyddio llawer iawn o’r lle sydd ar gael ar gyfer beddau. Pe bai Bwrdd y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad, roedd swyddogion yn cynnig gosod tair mainc gymunedol, gyda deg plac coffa ar bob un ohonynt. Cadarnhawyd y cysylltwyd â'r teuluoedd a gyflwynodd y ceisiadau i egluro y byddai'n fainc gymunedol.

Mewn ymateb i ymholiadau'r aelodau ynghylch ym mha fynwentydd y gosodwyd y meinciau cymunedol, eglurwyd bod meinciau wedi'u gosod lle bu rhestr aros o geisiadau am sedd goffa. Fodd bynnag, cadarnhaodd y swyddog y gallant ystyried gosod y rhain mewn mynwentydd eraill os oedd Aelodau Ward yn dymuno codi hyn gyda nhw.

Ar ôl craffu, cafodd yr argymhellion eu cefnogi i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

<u>Polisi a Ffioedd Enwi a Rhifo Strydoedd</u>

Diweddarwyd yr aelodau ar ddogfen bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd y cyngor, gan fod swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y taliadau priodol am wasanaethau a ddarparwyd ac ailenwi'r strydoedd presennol ac enwi strydoedd newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nododd yr aelodau bwysigrwydd sicrhau bod y cyfieithiad Cymraeg o'r enwau ffyrdd yn gywir, gan y gwnaed rhai camgymeriadau yn y gorffennol. Nodwyd hefyd fod yr wybodaeth yn yr adroddiad, ac i aelodau, i gyd wedi bod yn Saesneg, ac y byddai'n well sicrhau bod y cyfieithiadau Cymraeg yn yr adroddiadau lle bo hynny'n bosib.

Cododd aelodau bryderon ynghylch y diffyg ymgynghori ynglŷn â'r polisi, yn enwedig o ran peidio ag enwi strydoedd bellach ar ôl ymadawedigion. Eglurwyd nad oedd angen cynnal ymgynghoriad ynglŷn â'r polisi hwn, fodd bynnag, roedd y swyddogion yn hapus i newid y polisi o ran enwi strydoedd ar ôl ymadawedigion, neu y gallent ei drosi'n dilyn ymgynghoriad pe bai aelodau'n gofyn amdanynt. Cadarnhaodd Aelodau'r Pwyllgor y byddai'n well ganddynt petai swyddogion yn ymgynghori ar y polisi'n ôl-weithredol, ac i adrodd yn ôl am yr ymgynghoriad hwn wrth y Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhellion a chânt eu cyflwyno i Fwrdd y Cabinet.

Gwasanaeth Bysus Cymorthdaledig – Estyniadau i Gontractau

Hysbysodd y swyddogion yr aelodau ar y cais i estyn y contractau bysus cymorthdaledig presennol tan 31 Mawrth 2023, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Esboniodd aelodau'r Pwyllgor eu bod yn cefnogi'r argymhellion, fodd bynnag, roedd ganddynt bryderon am y rhwydwaith bysus ehangach. Awgrymodd adroddiad Bwrdd y Cabinet y byddai diffyg yn y dyfodol agos, ac y byddai angen torri gwasanaethau neu y byddai angen i'r cyngor ailddyrannu cyllid. Nodwyd pe bai'r cyngor yn cyflawni newid moddol tuag at ddulliau teithio mwy cynaliadwy a gweithredol o fewn y fwrdeistref, y byddai angen gwneud y rhain yn fwy fforddiadwy a hygyrch. Gofynnodd aelodau am ddatganiad sefyllfa gan swyddogion ynglŷn â chyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru o *Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn*: *cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru*. Mewn ymateb, cadarnhaodd y swyddogion bod y papur wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2022, a bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, felly nid oedd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi eto. Fodd bynnag, cytunodd y swyddog y gellid gwneud gwelliannau i'r ffordd yr oedd y gwasanaethau bysus yn cael eu gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Mynegodd rai pryderon ynghylch sut caiff y newidiadau eu gwneud yn ymarferol a lefel y cyllid a fyddai ar gael i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a thlodi trafnidiaeth. Am y tro, esboniodd y swyddogion fod yr adroddiad yn argymell estyn y contract presennol i fynd i'r afael â'r mater ar unwaith, wrth i swyddogion ddod o hyd i arian cyfalaf o fewn y cyngor i gynnal y gwasanaeth o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder pellach ynghylch y prisiau a gyflwynwyd gan y cwmnïau bysus sy'n fwy na'r arian sydd ar gael i gefnogi'r lefel bresennol o wasanaethau, fel y nodwyd yn adroddiad Bwrdd y Cabinet. Cadarnhaodd swyddogion y cafwyd y cynnydd o ganlyniad i ddiffyg nawdd; yn ystod Covid-19, y cyfarwyddyd oedd i neb deithio, a ddinistriodd y diwydiant bysus lleol. Roedd prisiau'n sylweddol uwch er mwyn digolledu colli refeniw; roedd y contractau wedi bron â dyblu mewn pris ers y dyfyniad, ac yn werth tua £360,000 erbyn hyn. Codwyd pryder, gan ei bod yn debygol y byddai'r contract am bum mlynedd o fis Mawrth 2023, ac nid oedd y

nawdd na meintiau’r elw amcangyfrifedig yn hysbys. Nododd y swyddogion, o safbwynt tendro, fod yn rhaid iddynt roi rhywfaint o sicrwydd i weithredwyr o ran y contract, ac amlinellwyd bod hyn yn caniatáu i weithredwyr fuddsoddi yn y gwasanaeth a'u cerbydau. Roedd cymalau terfynu o fewn y contractau y gellid eu diwygio, felly nid oedd y swyddogion yn bryderus ynghylch tymor y contract.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Craffu am ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn mynegi pryderon Castell-nedd Port Talbot, gan fod llawer o bethau anhysbys o ran y Papur Gwyn, a'r ffaith na dderbyniwyd canlyniadau'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r llythyr gynnwys esboniad o'r angen i ddeall amserlenni dangosol gweithredu'r Papur Gwyn, gan ei fod yn allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol. Hefyd, dylid gofyn am fanylion pellach trosglwyddo trefniadau ariannu dros dro; roedd yr adroddiad yn nodi bod y Grant Cynnal Gwasanaeth Bysiau (BSSG) presennol ar fin dod i ben ac nid oedd unrhyw wybodaeth am y grant nesaf ar gael ar hyn o bryd.

Cytunodd swyddogion i ddrafftio llythyr at Lywodraeth Cymru gydag Aelodau'r Cabinet, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhellion a chânt eu cyflwyno i Fwrdd y Cabinet.

<u>Adroddiad Twnnel Tai'r Gelli</u>

Cafodd yr aelodau ddiweddariad ynghylch cyflwr y twnnel rheilffordd segur a'i flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi cyfalaf, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd yr aelodau am fanylion pellach ynghylch y cyfleoedd buddsoddi cyfalaf, a sut roedd hyn yn cyd-fynd â Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf y cyngor. Cynigiwyd bod adroddiad yn cael ei ddychwelyd i'r Pwyllgor Craffu o fewn y 12 mis nesaf gydag arfarniad opsiynau, a oedd yn archwilio cyfleoedd buddsoddi cyfalaf posib, a oedd yn adlewyrchu agwedd yr AEI.

Mewn ymateb i'r Aelodau, eglurodd y swyddog fod Twnnel Tai'r Gelli bellach yn ased y cyngor, gan mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot oedd yn berchen ar y tir. Roedd y cyngor wedi derbyn ceisiadau ffilmio; felly, gofynnwyd i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i nodi'r materion sy'n gysylltiedig â'r ased, yn dilyn archwiliad. Eglurwyd nad oedd ar y Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf ar

hyn o bryd, gan fod materion mwy dybryd ar y rhaglen, gan nad oedd Twnnel Tai'r Gelli ar y Rhwydwaith Teithio Llesol, na'r rhwydwaith mabwysiedig. Roedd pedwar opsiwn wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, ac roedd y swyddogion yn argymell Opsiwn 2 i Fwrdd y Cabinet; roedd hyn er mwyn cadw'r ased fel yr oedd, i alluogi'r cyngor i barhau i gynnal archwiliadau perthnasol, ar gyfer unrhyw fuddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol a allai fod ar gael.

Cytunodd swyddogion i ddod ag adroddiad yn ôl o fewn 12 mis sy'n amlinellu unrhyw gyfleoedd asedau a dichonoldeb y rhain yn unol â’r y cais. Mae'n debygol y byddai'n dod o dan y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant newydd, felly byddai hyn yn cael ei drafod ag ef pan fydd rhywun wedi'i benodi i'r swydd.

Cynigiodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid ychwanegu argymhelliad ychwanegol i'r rheini a amlinellir o fewn adroddiad Bwrdd y Cabinet, ac eiliwyd hyn ganddynt

Cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu'r argymhelliad canlynol:

*“Caiff astudiaeth dichonoldeb ei gynnal ar gyfer defnydd yn y dyfodol, a chyflwynir yr opsiynau dilynol i’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun o fewn y 12 mis nesaf.”*

Yn dilyn Craffu, ac yn ogystal â'r gwelliant uchod, cefnogwyd yr argymhellion a chânt eu cyflwyno i Fwrdd y Cabinet.

<u>Ailddatblygu Ciosg Arlwyo a Chyfleustra Cyhoeddus ar ben gorllewinol Glan Môr Aberafan</u>

Diweddarwyd yr aelodau ar y bwriad i ailddatblygu ciosg arlwyo a chyfleustra cyhoeddus ar ben gorllewinol Glan Môr Aberafan, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhellion a chânt eu cyflwyno i Fwrdd y Cabinet.

## 4. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**